Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dolgellau
**Ffordd Pen y Cefn**
**Dolgellau**
**Gwynedd**
**LL40 2YW**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2015**

## Cyd-destun

Ysgol wirfoddol reoledig Yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Gynradd Dolgellau ar gyrion gogleddol y dref.  Mae gan yr ysgol ddwy safle, gyda ffordd gyhoeddus rhyngddynt.  Daw o dan ofal awdurdod lleol Gwynedd.

Mae 155 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gyda 20 o blant rhan amser yn y dosbarth meithrin.  Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn chwe dosbarth oed cymysg.  Mae tua 16% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.  Daw tua 25% o gartrefi ble siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf.  Mae tua 7% o ddisgyblion yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig.

Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.  Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol wedi adnabod bod ganddi 19% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys 4 disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth yn Ebrill 2009.  Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym Mehefin 2009.  Mae'r Pennaeth parhaol yn absennol o'i waith ar hyn o bryd ac mae'r awdurdod wedi sicrhau bod pennaeth arall yng ngofal yr ysgol dros gyfnod yr arolygiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Dolgellau yn 2014-2015 yw £3,951.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220.  Mae Ysgol Gynradd Dolgellau yn safle 53 o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Anfoddhaol |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- Bod mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol
- Bod bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu
- Bod disgyblion yn foesgar a hyderus gydag ymwelwyr ac yn dangos parch, gofal a phryder am bobl eraill
- Bod y Cyfnod Sylfaen yn darparu ystod o brofiadau dysgu addas ar draws y cwricwlwm

Fodd bynnag:

- Nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyrraedd y safonau uwch mewn Cymraeg a mathemateg
- Mae iaith lafar ac ysgrifenedig disgyblion cyfnod allweddol 2 yn lled wallus
- Nid yw medrau dysgu annibynnol llawer o ddisgyblion wedi datblygu'n ddigonol
- Nid yw'r wybodaeth am gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yn cael ei defnyddio'n effeithiol
- Mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith ar draws yr ysgol yn llesteirio gallu'r disgyblion i wneud cynnydd priodol yn eu dysgu
- Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- Nid oes gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol
- Nid yw rôl y corff llywodraethwyr wedi ei datblygu'n briodol
- Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn darparu darlun cyflawn o sefyllfa gyfredol yr ysgol
- Mae blaenoriaethau cynlluniau datblygu yn newid yn gyson ac nid yw cynlluniau yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles disgyblion
- Nid yw'r arweinwyr wedi llwyddo i fynd i'r afael i'r â'r holl argymhellion yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Fodd bynnag:

- Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n briodol at y ddarpariaeth a safonau cyflawniad a lles y disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi safonau a sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyrraedd eu potensial

A2 Datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer asesu, a defnyddio'r canfyddiadau er mwyn darparu rhaglenni ymyrraeth priodol i disgyblion

A3 Sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefnau diogelu priodol a mynd i'r afael â'r materion diogelwch a'u hamlygwyd yn ystod yr arolygiad

A4 Gwella gweithdrefnau arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau strwythur staffio sy'n fwy effeithiol

A5 Datblygu rôl y llywodraethwyr yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol a sicrhau bod holl ddogfennau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol

A6 Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu sy'n gynaliadwy ac yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella yn effeithiol

A7 Gweithredu cynlluniau i wella'r ysgol yn effeithiol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae yna drawstoriad o allu ymysg medrau sylfaenol y disgyblion ar fynediad i'r ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae'r mwyafrif yn siarad yn glir a hyderus gan ddefnyddio geirfa sy'n ehangu. Mae'r mwyafrif yn darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu ac yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael briodol ar atalnodi sylfaenol.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus. Gallant esbonio eu gwaith yn aeddfed gan ddefnyddio geirfa briodol. Fodd bynnag, mae eu cystrawen a'u gallu i dreiglo yn lled wallus ar lafar a chaiff hyn effaith ar gywirdeb eu hiaith ysgrifenedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu ysgrifennu'n estynedig i ystod o bwrpasau yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi'n lled gywir ac yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus ac mewn paragraffau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn naturiol gydag oedolion ond mae llawer yn defnyddio'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg yn ystod amser egwyl a hefyd yn achlysurol wrth gerdded drwy'r ysgol.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd i safon uwch mewn meysydd ar draws y cwricwlwm nag y maent mewn gwersi iaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n briodol mewn mathemateg ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen maent yn gallu rhifo fesul deg, adio a thynnu hyd at 20, rhifo ymlaen ac yn ôl, defnyddio kg, ac adnabod rhinweddau siapau 3D.

Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn gallu defnyddio tablau lluosi er mwyn cyfrifo cost cynnyrch. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o werth lle wrth ymdrin ag arian ac yn gallu creu graffiau llinell llwyddiannus, er enghraifft wrth amseru curiadau'r galon. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn briodol.

Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyrraedd y safonau uwch mewn Cymraeg a mathemateg. Mae medrau meddwl y rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) wedi bod yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6), dros y tair blynedd ddiwethaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn gyffredinol wedi bod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi gostwng yn sylweddol. Yn 2014, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5), yn yr 50% is mewn Saesneg a mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% uwch mewn Cymraeg o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, nid oes patrwm o wahaniaeth amlwg yng nghyflawniad disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion. Serch hynny, nid oes yr un disgybl sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi cyrraedd y lefel uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad y bechgyn ar ddeilliant 5 yn gyson is na'r merched mewn llythrennedd a mathemateg dros gyfnod o dair blynedd.

**Lles: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach drwy fwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd, yfed dŵr a gwneud ymarfer corff yn gyson trwy weithgareddau chwaraeon amrywiol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt hyder yng ngallu'r staff i ddelio'n effeithiol ag unrhyw achosion o ymddygiad negyddol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth iddynt weithio ar dasg. Fodd bynnag, nid yw medrau dysgu annibynnol llawer o ddisgyblion wedi datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar a hyderus gydag ymwelwyr. Mae eu hymddygiad yn gyson dda mewn ystafelloedd dosbarth ac amser egwyl, a dangosant barch, gofal a phryder am bobl eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf yn is na'r canolrif o'i gymharu gydag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn sicrhau bod llais y dysgwr yn cyfrannu'n effeithiol at waith a bywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn cadw cofnodion manwl o'u cyfarfodydd ac yn gwneud penderfyniadau gwerthfawr, fel dewis codi arian at elusennau arbennig a phrynu offer perthnasol i'w ddefnyddio yn ystod amser chwarae.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol yn gymuned lleol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau blynyddol, er enghraifft y côr yn canu yn y dref adeg y Nadolig.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn darparu ystod o brofiadau dysgu addas ar draws y cwricwlwm sydd yn ymateb yn briodol i anghenion rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer defnyddio'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen

wedi'i ddatblygu'n llawn. Yn ogystal, nid yw'r cynlluniau gwaith diweddar yng nghyfnod allweddol 2 yn ddigon addas er mwyn bodloni anghenion dysgwyr yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi ei chynllunio'n briodol ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'r ysgol bob amser yn cynnig digon o her ar gyfer y disgyblion mwy abl.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfyng i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o'u Cymreictod drwy astudio arlunwyr Cymreig. Mae'r ysgol yn defnyddio siarter iaith er mwyn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn briodol ac mae hyn yn dechrau cael effaith ar lawer o ddisgyblion i siarad mwy o Gymraeg yn y dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy yn briodol drwy weithgareddau ymarferol sy'n cynnwys ailgylchu, arbed ynni a thrwy ymweliadau addysgol i ganolfan ailgylchu. Mae ychydig o'r disgyblion yn gweithredu fel 'ditectifs ynni' ac yn rhoi arweiniad priodol i'r ysgol yn y meysydd hyn sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at brofiadau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang drwy ei gweithgareddau cwricwlaidd, er enghraifft wrth astudio Tsieina.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol dda. Mae rheolaeth dosbarth yn gyson effeithiol drwy'r ysgol ac mae'r oedolion yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar yn y dosbarth.

Mewn mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn darparu gwaith sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn modelu iaith dda ac yn holi'n fedrus i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion a hybu ymatebion estynedig.

Mewn mwyafrif o wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gwaith yn herio'r disgyblion mwy abl nac yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Nid oes digon o dasgau wedi eu trefnu ar lefelau gwahanol er mwyn datblygu disgyblion o bob ystod gallu ac mae gor-ddefnydd o daflenni gwaith ar draws yr ysgol yn llesteirio gallu'r disgyblion i wneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Mae gweithdrefnau asesu yn annigonol. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu system dracio electroneg ar gyfer cofnodi cyrhaeddiad disgyblion a chynllunio ar gyfer eu hanghenion dysgu. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo cynllunio pwrpasol a gwella safonau nac er mwyn datblygu rhaglenni ymyrraeth ar gyfer cynorthwyo disgyblion penodol.

Mae mwyafrif o'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn briodol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd; fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae awyrgylch gofalgar a chyfeillgar yn yr ysgol, sy'n rhoi pwyslais ar les disgyblion. Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r disgyblion ac oedolion ac mae hyn yn ychwanegu at yr ethos cynhwysol yr ysgol. Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad da. Mae'r ysgol wedi sefydlu system wobrwyo sy'n annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol megis therapydd iaith, gwasanaethau cymdeithasol, nyrs yr ysgol a'r heddwas lleol er mwyn gwella lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Trwy wasanaethau rheolaidd a chyfleoedd i fyfyrio, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol.

Mae'r ddarpariaeth yn cwrdd yn effeithiol ag anghenion y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgu disgyblion yn gynnar, ac yn darparu cymorth ychwanegol addas fel bo'r angen. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion yn cynnwys targedau clir, ac mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer trafod cynnydd gyda rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos yr ysgol yn un gofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn effeithiol. Mae pwyslais mawr ar feithrin parch tuag at gyfoedion ac ymwelwyr o fewn yr ysgol ac mae'r 'rheolau aur' yn atgyfnerthu'r elfen hon yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn addas. Fodd bynnag, nid oes ganddi bolisïau priodol ar gyfer sicrhau mynediad hygyrch i'r adeilad.

Mae adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol, o ystyried eu hoed. Mae'r ddau safle yn cael eu cadw'n lled raenus a thaclus er bod angen sylw cynnal a chadw mewn mannau. Amlygwyd materion diogelwch ynglyn ag ansawdd yr adeilad yn ystod yr arolygiad.

Mae ardaloedd allanol yr ysgol yn rhoi peth anogaeth i'r disgyblion gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd ffisegol o'u cwmpas. Fodd bynnag, nid yw ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn cynnig digon o gyfleoedd i gyfoethogi'r profiadau dysgu er mwyn codi safonau cyflawniad yn briodol.

Mae digon o adnoddau o ansawdd addas yn yr ysgol a gwna'r disgyblion ddefnydd priodol ohonynt.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn aneffeithiol. Nid oes gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol. Gyda chymorth dwys swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol, mae aelodau staff wedi dechrau mireinio gweithdrefnau er mwyn arfarnu'r hyn sy'n gweithio'n dda a chynllunio ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r gweithdrefnau hyn yn newydd iawn a heb eto gael effaith gadarnhaol ar safonau na'r ddarpariaeth. Mae'r strwythur staffio yn ddiffygiol, gan nad oes gweithdrefnau ar waith i aelodau eraill o staff ymgymryd â chyfrifoldeb am redeg yr ysgol gyfan yn absenoldeb y pennaeth.

Mae staff wedi sefydlu rhai o weithdrefnau addysgu'r Cyfnod Sylfaen yn briodol, ond nid ydynt eto wedi datblygu'r ardal allanol yn ddigon effeithiol ar gyfer y disgyblion. Maent wedi cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn lled llwyddiannus, ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Nid yw rôl y corff llywodraethol wedi ei datblygu'n briodol. Mae'r corff wedi gweithredu yn rhy araf er mwyn sicrhau bod arweinyddiaeth strategol yr ysgol yn effeithiol. Yn ddiweddar, o dan arweiniad y cadeirydd newydd, maent wedi dechrau datblygu eu rôl yn fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyflawni eu rôl yn ddigon cadarn wrth hunan arfarnu na chynllunio ar gyfer gwella.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys gwybodaeth briodol am ystod eang o agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'n nodi tueddiadau ym mherfformiad yr ysgol mewn perthynas ag ysgolion tebyg a pherfformiadau cenedlaethol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn darparu darlun cyflawn, nac wedi ei sefydlu yn ddigon cadarn ar ganfyddiadau monitro dydd i ddydd yr ysgol dros gyfnod estynedig. O ganlyniad, ni all arweinwyr fod yn sicr o gryfderau a meysydd datblygu'r ysgol yn ddigon cywir. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu presennol yr ysgol yn rhai newydd sydd heb eu sefydlu'n effeithiol hyd yn hyn. Prin yw'r dystiolaeth o gywain barn gan randdeiliaid ac nid oes rôl gan y llywodraethwyr yn y broses hyd yn hyn.

Mae arweinwyr wedi cynllunio rhaglen fonitro gynhwysfawr er mwyn arfarnu gwahanol agweddau ar waith yr ysgol dros gyfnod. Fodd bynnag, nid ydynt wedi sicrhau bod aelodau o'r staff wedi llwyddo i gydymffurfio'n llwyr â gofynion y rhaglen dros y tymhorau diwethaf, nac wedi defnyddio'r deilliannau er mwyn gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a safonau yn rhy araf.

Gyda chymorth dwys a diweddar yr ymgynghorydd her, mae arweinwyr wedi ceisio mireinio'r cyswllt rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau ar gyfer cynllun datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw effaith hyn yn glir mewn perthynas ag asesu na datblygu arweinyddiaeth strategol.

Nid oes tystiolaeth bod cynlluniau datblygu blaenorol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau na lles disgyblion.

Nid yw arweinwyr wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r holl argymhellion yn dilyn yr arolygiad diwethaf. Mae dau argymhelliad pwysig yn parhau fel blaenoriaethau yn y cynllun datblygu presennol. Mae'r rhain yn ymwneud â rôl y llywodraethwyr o ran monitro safonau a gweithredu trefniadau rheolaethol; a'r cyswllt rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n briodol at y ddarpariaeth a safonau cyflawniad a lles y disgyblion.

Mae 'cyfeillion yr ysgol', sy'n cynnwys rhieni, yn gweithio'n gyson i drefnu gweithgareddau codi arian er mwyn prynu adnoddau er budd y disgyblion. Mae unigolion o blith y rhieni yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol er mwyn rhannu eu profiadau ac ehangu gwybodaeth y disgyblion mewn meysydd arbennig yn briodol; er enghraifft, sôn am wisgoedd India, neu rannu profiadau am redeg marathon.

Mae partneriaeth briodol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r Cylch Meithrin lleol. O ganlyniad, mae disgyblion newydd yn setlo'n gyflym wrth gychwyn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn elwa o'r berthynas waith buddiol sy'n bodoli rhwng ysgolion yr ardal. Mae athrawon yn cyd-gynllunio ac yn cyd-drefnu digwyddiadau ar y cyd. Er enghraifft, mabolgampau ysgolion. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos â'r ysgolion hyn i gymedroli a chyd-safoni asesiadau parhaus. Fodd bynnag, nid yw adnabyddiaeth athrawon o ofynion lefelau bob amser yn eglur.

Mae'r ysgol yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Mae cyswllt cadarn yn bodoli gyda'r eglwys a'r capel lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned ac o'u cyfrifoldebau nhw fel dinasyddion cyfrifol.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi cefnogi'r ysgol yn arbennig o dda gyda materion arweinyddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a ffurfiwyd y ddogfen hunanarfarnu bresennol a'r cynllun datblygu ysgol yn sgil y gefnogaeth hon. Fodd bynnag nid oes tystiolaeth bod y gefnogaeth wedi cael effaith ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys a phrofiadol er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae cyfnodau sylweddol o absenoldebau staff dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi effeithio'n sylweddol ar rediad yr ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn bodoli ar gyfer staff ar bob lefel. Er bod gan staff amcanion ar gyfer gwella eu hymarfer, nid ydynt bob amser yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn eu cynorthwyo i gwrdd â'r amcanion hynny. Er hyn, mae lleiafrif o'r athrawon wedi mynychu hyfforddiant penodol ar ddatblygu rhifedd,

agweddau ar lythrennedd ac addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddiweddar.  Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y meysydd hyn.  Mae’r athrawon yn derbyn amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Er bod arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol ac yn monitro gwariant yn briodol, nid oes tystiolaeth bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau a lles y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn cinio am ddim.

O ystyried y defnydd o’r cyllid, a safonau cyflawniad y disgyblion, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6613041 - Ysgol Gynradd Dolgellau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 151 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 24 | 19 | 19 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.5 | 73.7 | 78.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 19 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 73.7 | 84.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.8 | 21.1 | 47.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 19 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 84.2 | 78.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 15.8 | 36.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 19 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 94.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.8 | 21.1 | 52.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6613041 - Ysgol Gynradd Dolgellau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 151 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 21 | 17 | 20 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 95.2 | 94.1 | 80.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 17 | 20 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.2 | 94.1 | 85.0 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.3 | 35.3 | 25.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 17 | 19 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 82.4 | 89.5 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 23.5 | 26.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 17 | 20 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.2 | 94.1 | 80.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 19.0 | 35.3 | 30.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 21 | 17 | 20 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.2 | 94.1 | 85.0 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.3 | 17.6 | 15.0 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 88 | 85<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 88 | 70<br>80%<br>92% | 18<br>20%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 88 | 87<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 88 | 86<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 88 | 85<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 88 | 82<br>93%<br>96% | 6<br>7%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 88 | 88<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 88 | 86<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 87 | 79<br>91%<br>91% | 8<br>9%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 88 | 85<br>97%<br>95% | 3<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 88 | 60<br>68%<br>77% | 28<br>32%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 88 | 66<br>75%<br>84% | 22<br>25%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 8 | 19 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 26% | 61% | 13% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 14 | 15 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 45% | 48% | 6% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 32 | 14 | 16 | 0 | 0 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 44% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 32 | 14 | 16 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 44% | 50% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 32 | 6 | 16 | 4 | 1 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 19% | 50% | 12% | 3% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 32 | 12 | 17 | 0 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 38% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 32 | 14 | 17 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 44% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 30 | 10 | 16 | 0 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 33% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 32 | 13 | 14 | 0 | 2 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 41% | 44% | 0% | 6% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 14 | 15 | 1 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 44% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 16 | 13 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 32 | 11 | 16 | 2 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 34% | 50% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 32 | 10 | 14 | 7 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 31% | 44% | 22% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 32 | 15<br>47% | 13<br>41% | 3<br>9% | 1<br>3% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 8<br>25% | 15<br>47% | 3<br>9% | 0<br>0% | 6 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 32 | 14<br>44% | 16<br>50% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 27 | 10<br>37% | 13<br>48% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 8<br>26% | 10<br>32% | 10<br>32% | 1<br>3% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 8<br>25% | 13<br>41% | 7<br>22% | 2<br>6% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Gareth Owen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Doris Parry | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.